

Coedwigoedd Gorllewin Cymru



Amaethgoedwigaeth Gymunedol

Cyfle i bawb gyfranogi wrth dyfu ffrwythau, llysiau a blodau mewn lleoliad coetir. Cewch roi cynnig ar hwsmonaeth anifeiliaid a chadw gwenyn, a chynaeafu cynnyrch coetir mewn modd cynaliadwy.

Rydym yn mynd ar gyflymder sy'n addas i'r unigolyn, mae gennym flynyddoedd lawer o brofiad o hybu iechyd meddwl da, ac rydym yn rhoi seibiant o feichiau bob dydd. Mae croeso i ofalwyr a theuluoedd.

Cysylltwch â ni trwy Chats ar: <https://www.facebook.com/westwaleswoods>

Neu drwy e-bostio: westwaleswoods@gmail.com

Neu ffonio Anna ar: 07931 361923

Permaddiwylliant, Cynladwyedd a Byw Oddi Ar y Grid



Permaddiwylliant:

Mae ein holl arddio coedwig yn organig, gan ddefnyddio ecosystemau amaethyddol y coetir mewn ffordd gynaliadwy a hunangynhaliol. Gan gynnwys tyfu llysiau mewn gwelyau uchel, tyfu mewn twnelau polythen, coed perllan a llwyni ffrwythau, a rhoi sylw i dyfu blodau ar gyfer ein gwenyn preswyl a gwenyn sy'n ymweld.



Hwsmonaeth Anifeiliaid

Ymysg y coed yn y coetir rydym yn cadw amrywiaeth o ieir – rhai wedi'u hachub o ffermydd ffatri. Mae gennym gŵn therapi a moch bach, y mae angen gofal a chariad arnynt i gyd. Mae cyfathrebu ag anifeiliaid yn rhoi cysur i rai pobl – felly, dyma'r cam gweithredu perffaith iddyn nhw. Rydym hefyd yn cadw gwenyn yng ngwenynfa Coedwigoedd Gorllewin Cymru, ac mae cyrsiau ar gadw gwenyn ar gael.



Cynnyrch Coetir

Rydym yn cynaeafu amrywiaeth o gynnyrch o Goedwigoedd Gorllewin Cymru:

- Cynnyrch Pren; crefftio ffyn cerdded, ffensys, corlannau anifeiliaid yn ein gweithdy ar y safle. Rydym yn gwneud bio-ologs gyda phren wedi'i ailgylchu a deunyddiau botanegol yn ein pwll bio-ologs.
- Olewau naws; casglu perlysiâu a'u sychu yn barod i'w gwneud yn olewau, te a thrwythau. Mae ein holl gynnyrch wedi'u hardystio gan swyddfa'r llywodraeth ar gyfer Diogelwch a Safonau Cynnyrch o dan yr enw 'Wyld Wood Essentials'.
- Bwyd; rydym wedi cofrestru gyda Chyngor Sir Gâr fel busnes bwyd sy'n cynhyrchu jamiau a finegr. Cewch ddysgu sut i dyfu, coginio a storio'r cynnyrch rydych chi wedi'i dyfu yn ein gerddi yma yng Nghoedwigoedd Gorllewin Cymru.